Pecyn Dawnsio Dyffryn Dyfrdwy

Arweiniad i Athrawon

Amser ar gyfer y gweithgaredd	**Cynllun Gweithgareddau 6 Wythnos**
Lleoliad	**Gofod Agored yn y neuadd neu du allan**

Y Briff ar gyfer yr Athro

O fewn y rhaglen 6 wythnos - Pecyn Dawnsio Dyffryn Dyfrdwy mae nifer o wersi cerddoriaeth a symudiad wedi'u cynllunio ar y cyd â gwersi ystafell ddosbarth i gefnogi'r cynnwys fel a ganlyn:

1. **Dyfrffyrdd** - 1 gwers yn y dosbarth ac 1 gwers cerddoriaeth a symudiad.
2. **Bywyd wrth y Dŵr** - 1 gwers yn y dosbarth ac 1 gwers cerddoriaeth a symudiad.
3. **Bywyd Gwyllt yn y Dyfrffyrdd** - 1 gwers yn y dosbarth ac 1 gwers cerddoriaeth a symudiad.
4. **Treftadaeth Adeiledig: Pontydd** - 1 gwers yn y dosbarth ac 1 gwers cerddoriaeth a symudiad.
5. **Treftadaeth Adeiledig: Traphontydd Dŵr a Thwneli** - 1 gwers yn y dosbarth ac 1 gwers cerddoriaeth a symudiad.
6. **Perfformiad Terfynol** - 1 gwers yn y dosbarth yn adlewyrchu ar yr hyn a ddysgwyd a 2 (neu fwy) o wersi cerddoriaeth a symudiad i greu coreograffi ar gyfer y perfformiad terfynol.

Mae'r cynlluniau yn cynnwys sesiwn cynhesu i fyny ac oeri i lawr gyda thema iddo ac mae hyblygrwydd i ymestyn cynnwys dros ddau neu fwy o wersi dawnsio os oes angen.

Mae pob cynllun gwers yn cynnwys rhestr awgrymedig o adnoddau a cherddoriaeth (sydd i'w gael ar-lein yn hawdd).

Mae'r cynlluniau ar gyfer y gwersi dawnsio hyn wedi cael eu creu ar y cyd ag Eleni.Cymru

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy Tirwedd Cenedlaethol
Clwydian Range and Dee Valley National Landscape

Pontcysyllte Safle Treftadaeth Y Byd World Heritage Site

Gweithgareddau Cychwynnol

Efallai y byddai'n ddefnyddiol cael ychydig o ddealltwriaeth am y cylch dŵr fel cyswllt i'r sesiynau hyn; mae gan **Gyfoeth Naturiol Cymru** sawl adnodd ynghylch y thema dŵr yn cynnwys **Tai Chi Cylch Dŵr** a **Systemau Afonydd** sydd i'w cael yma.

Gweithgareddau Estynedig

Fel estyniad i'r thema ddysgu gallwch edrych ar y P**ecyn Dysgu Ymyrwyr Ecosystemau** yn ein hadnoddau addysgol. Mae'n cynnwys gwaith yn y dosbarth a gweithgareddau addysg gorfforol yn yr awyr agored.

Chwilio am fwy o adnoddau dysgu a gwybodaeth?
www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk